Chwaraeon RhCT
Sport RCT

@sportrct
www.chwaraeonrhct.co.uk | www.sportrct.co.uk

# Astudiaeth Achos

## Ysgol Gynradd Dolau - Prosiect Cyfnod Sylfaen

Roedd Ysgol Gynradd Dolau yn awyddus i ddarparu cyfleoedd newydd i blant cyfnod sylfaen gan ei bod yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'i chyfleoedd allgyrsiol ar gyfer disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ei phrosiect wedi'i dargedu ar gyfer Blwyddyn 2 gyda'r nod o gynyddu eu hyder a datblygu sgiliau trosglwyddadwy a fyddai'n eu helpu yn y dyfodol. Sylwodd fod disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn bennaf yn mynychu'r rhan fwyaf o glybiau allgyrsiol yn hytrach na disgyblion Blwyddyn 3 a 4. Roedd yr ysgol yn awyddus i baratoi plant Blwyddyn 2 a sicrhau bod ganddyn nhw'r sgiliau a'r hyder i gymryd rhan mewn clybiau allgyrsiol cyn gynted ag y byddan nhw'n cyrraedd Blwyddyn 3.

Roedd y sesiynau wedi'u darparu mewn ffordd sy'n rhoi profiad i'r plant o amgylcheddau chwaraeon, gwrando ar y rheolau, cymryd rhan, ennill/colli a gweithio yn rhan o dîm.

### Pam wnaeth hyn?

- Darparu rhagor o gyfleoedd i blant Blwyddyn 2 fod yn egnïol
- Datblygu sgiliau a hyder plant Blwyddyn 2
- Paratoi plant Blwyddyn 2 am y cam nesaf

### Beth mae'r ysgol wedi'i ddysgu o'r prosiect?

- Sut y mae modd i brofiadau blaenorol helpu i gefnogi plant ar gyfer newidiadau yn y dyfodol
- Sut y mae modd i blant fagu hyder mewn cyfnod byr
- Pwysigrwydd addysg gorfforol ar sgiliau cymdeithasol y plentyn
- Pwysigrwydd gweithgareddau allgyrsiol i addysg y plentyn

**12** Nifer y sesiynau:

Nifer y plant a gymerodd ran: **40**

Aeth **28** o blant i fwy na 60% o sesiynau

**3** Athro yn cymryd rhan

Cyfartaledd o **32** o blant oedd yn mynychu bob wythnos

RHONDDA CYNON TAF